
# Urdd Gobaith Cymru
# 07—08

Adroddiad Blynyddol
Annual Report




urdd.org





## Llywydd yr Urdd
## Delyth Vaughan

Braint, anrhydedd a phleser oedd bod yn Llywydd ar fudiad ieuenctid mwyaf Cymru eleni. Anodd yw canfod geiriau i gyfleu fy malchder gan na wnes i erioed ddychmygu y byddwn un dydd yn Llywydd ar y mudiad arbennig hwn.

Mae'r Urdd wedi bod yn rhan annatod o'm bywyd ers yn blentyn. Rwy'n hynod ffodus o'r llu cyfleoedd, profiadau, ffrindiau ond yn bennaf y gwerthoedd yr wyf wedi eu cael o fod yn aelod o'r Urdd dros y blynyddoedd. Mae'r hyn sydd gan y mudiad i'w gynnig i'w aelodau yn gwbwl unigryw.

Yr hyn sy'n greiddiol i lwyddiant y mudiad yw gwirfoddolwyr. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i holl wirfoddolwyr y mudiad. Ar hyd a lled Cymru mae gwirfoddolwyr wedi ymroi o'u hamser i sicrhau fod plant a phobl ifanc Cymru yn cael eu meithrin a'u datblygu yn unigolion cyflawn.

Mae'r gweithgarwch wythnosol ar lawr gwlad yn hynod bwysig i mi ynghyd â choron flynyddol yr Urdd sef yr Eisteddfod. A minnau wedi fy ngeni a magu yn Sir Conwy, erys Eisteddfod Sir Conwy 2008 ym Mae Penrhyn yn fyw yn y cof ac yn fy nghalon am byth. Gwir dweud fod yr Urdd yn flwyddyn gyfan o fwrlwm. Rwyf wedi tystio hynny eleni diolch i'r holl weithgareddau a digwyddiadau niferus y bûm yn rhan ohonynt fel aelod, gwirfoddolwr a Llywydd y mudiad.

Yn ddiau, bydd yr Urdd yn rhan ohonof am byth a hyderaf y byddaf innau'n ran o'r mudiad arbennig hwn am flynyddoedd i ddod.



## Urdd President
## Delyth Vaughan

Being the President of the Urdd this year has been an honour, a privilege and a pleasure. Finding words to express my pride is difficult as I never imagined I would one day be President of this very special organisation.

The Urdd has been an integral part of my life since childhood. I am extremely fortunate to have gained so many opportunities, experiences, friends, and above all, values from being a member of the Urdd over the years. This organisation offers a totally unique experience to its members.

At the heart of its success are its volunteers. I would like to take this opportunity to express sincere thanks to all the organisation's volunteers. Throughout Wales, volunteers have given their time to ensure that the children and young people of Wales are nurtured and developed as rounded individuals.

The weekly activity at grass roots level is extremely important to me as is the annual crown of the Urdd's activities, the Eisteddfod. As I was born and raised in the area, the Conwy Eisteddfod in 2008 at Penrhyn Bay will remain in my memory and in my heart forever. It is true to say that the Urdd is a hive of activity all year long. I have witnessed that fact this year, attending numerous activities and events as a member, as a volunteer and as President of the organisation.

Without a shadow of a doubt, the Urdd will be a part of me forever and I trust that I, in turn, will be a part of this special organisation for many years to come.





## Adroddiad y Cadeirydd
## Carol Davies

2007 – 2008: beth sy'n aros yn y cof?

— Cystadleuaeth goginio yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf
— Cystadlaethau chwaraeon di-ri
— Poblogrwydd gwersylloedd yr Urdd
— Eisteddfod lwyddiannus yn Sir Conwy
— **Cip** yn dathlu 21 mlynedd
— Datblygiadau cyffrous gyda'r Neges Ewyllys Da
— Urdd Gwyrdd yn rhoi pwyslais ar ail gylchu a chefnogi ymgyrch masnach deg

Dyna ychydig o'r uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn sydd wedi rhoi sgiliau a phrofiadau newydd i'n haelodau. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn esblygu – oherwydd ein bod yn cymryd amser i wrando ar yr hyn sydd yn bwysig iddynt. Gwneir hyn drwy fforymau ieuenctid a holiaduron – ac mae rhai ymatebion yn dangos bod gan ein hieuenctid weledigaeth a dychymyg anhygoel wrth drafod datblygu'r mudiad.

O ddewis un o blith y cannoedd gweithgareddau, rhaid dweud mai pleser pur oedd ymuno yn ymgyrch Neges Ewyllys Da'r Urdd eleni wrth i ddegau o ysgolion a channoedd o blant a phobl ifanc ymuno i gydganu'r gân arbennig, "Gwres dy Galon", a hynny'n fyw ar BBC Radio Cymru.

Mae pawb sydd yn rhoi o'u hamser i gynnal a hyrwyddo gweithgarwch Urdd Gobaith Cymru yn ysbrydoliaeth i'n haelodau. Mae fy niolch yn enfawr i'r gwirfoddolwyr, cefnogwyr, staff y mudiad gan gynnwys swyddogion y mudiad ac wrth gwrs yr aelodau – cefnogwyr brwd a ffyddlon i Mistar Urdd.



## Adroddiad y Prif Weithredwr
## Efa Gruffudd Jones

Fy mhleser i yw cyflwyno'r adroddiad hwn i chi. Mae'n gofnod o flwyddyn brysur, hapus arall yn hanes yr Urdd.

Fe fyddwn yn ystod y flwyddyn i ddod yn cychwyn cyflawni'r amcanion sydd wedi eu gosod yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y blynyddoedd 2008-2011.

Yn y ddogfen honno rydym wedi gosod yn glir ein dyheadau fel mudiad.

**Sicrhau parhad yr iaith Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu.** Credwn mai dim ond trwy fuddsoddi mewn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc y bydd hynny'n digwydd.

**Cynyddu gweithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.** Drwy wneud hyn, rydym yn cynorthwyo pobl ifanc Cymru i fod yn iachach, yn gwneud y mwyaf o'r cysylltiad rhwng chwaraeon a'r amgylchedd naturiol, ac yn creu mwy o gymunedau bywiog yng Nghymru.

**Datblygu gwersylloedd yr Urdd.** Ar hyn o bryd daw 38,000 o ymwelwyr i aros ynddynt ac mae'r profiadau Cymraeg a Chymreig a gynigiant yn gwbl unigryw.

**Cynyddu'r cyfraniad economaidd a wna'r Urdd i fywyd Cymru, yn enwedig yng Nghymru wledig.** Ein nod yw cyfrannu i economi ffyniannus sy'n sicrhau swyddi da a chynaliadwy yn yr hir dymor.

**Cydweithio i sicrhau bod ein gwaith cymunedol, addysgol a chelfyddydol yn cyfrannu i strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.** Rydym yn arbenigo mewn cynnig gwasanaeth ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau fod y ddarpariaeth ar draws Cymru yn cynyddu gan gyfrannu at gyflawni amcanion Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cymru.

**Sicrhau bod mwy o gyfle i bobl ifanc yng Nghymru i brofi a chymryd rhan yn y celfyddydau.** Byddwn yn sicrhau fod yr amrywiaeth o brofiadau celfyddydol a gynigir, o gystadlu i gyrsiau i berfformiadau, yn flaengar a chyffrous.

Byddwn wrth hwyluso a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau yn gwella sgiliau plant a phobl ifanc yn y Gymraeg, a thrwy hynny yn cynyddu eu hyder ac yn sicrhau eu bod yn ei defnyddio fel iaith fywiog, naturiol.

Fy mraint arbennig i yw diolch i'r rheiny trwy bob rhan o Gymru, yn wirfoddolwyr, yn gefnogwyr ac yn aelodau o staff, sydd wedi sicrhau fod yr Urdd wedi gallu cyflawni gymaint dros y flwyddyn ddiwethaf. Edrychwn ymlaen yn awr at y flwyddyn nesaf. Diolch i chi gyd.



## Adroddiad y Trysorydd
## Rheon Tomos

Am y drydedd flwyddyn yn olynol mae cyfrifon y mudiad yn dangos gweddill iach, ac yn 2007/8 roedd ychydig yn well na'r disgwyl. Er i ni weld cynnydd o dros £0.5m yn ein gwariant (i £6.9m) fe sicrhawyd cynnydd sylweddol mewn incwm, sydd bellach wedi pasio'r £7m. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrechion sylweddol i ddenu arian newydd, adolygu craff o'r costau, a monitro cyson o'r cyllidebau. Hoffwn longyfarch ein swyddogion yn hyn o beth ynghyd â'r gwaith o gadw rheolaeth gadarn o'r sefyllfa ariannol.

Mae gwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd wedi bod yn andros o lwyddiannus eto eleni, gyda'u hymdrechion i ddenu mwy o ymwelwyr yn dwyn ffrwyth. Bu'n flwyddyn anodd i Lan-llyn oherwydd trafferthion yn deillio o dywydd garw, ond er hyn cyrhaeddwyd y garreg filltir o ddenu mwy na £1m o incwm tâl gwersyll am y tro cyntaf. Mae'r canolfannau yma yn cynnal eu hunain heb unrhyw gymhorthdal, ac fel y gwelwch o'r cyfrifon maent yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gostau cynnal y mudiad.

Fe welwyd buddsoddiad sylweddol (dros £1.8m) i lwyfannu'r Eisteddfod yng Nghaerfyrddin. Oherwydd gwaith diflino staff yr Urdd, yn ogystal â'r ymdrechion sylweddol yn lleol, gwelwyd gweddill o ychydig dros £17,000 yn y gost o lwyfannu'r ŵyl. Gwerthfawrogwyd cyfraniad ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin wrth gyrraedd y canlyniad boddhaol yma.

Fel yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi buddsoddi unwaith eto yn adnewyddu offer a gwneud gwelliannau i'n hasedau, ac mae'r Bwrdd Busnes wedi cefnogi gwariant pellach eleni. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi bod yn adolygu'r galw am fuddsoddi yn y dyfodol tra'n cysidro lefelau ein coffrau. Yn hyn o beth mae peth gofid, oherwydd cwymp yn y marchnadoedd arian, fod gwerth ein buddsoddiadau wedi gostwng eleni. Mae hyn yn groes i'r cyfnod o dwf cyson ers sawl blwyddyn. Fe fyddwn yn monitro'r sefyllfa yn gyson ac yn derbyn cyngor pan fo'r angen.

Rydym yn hynod ddiolchgar fod ein partneriaid a'n ffrindiau wedi dangos eu caredigrwydd drwy eu cyfraniadau a grantiau eto eleni, cyfraniad sydd yn allweddol i'n galluogi i ddarparu cymaint o amrywiaeth i blant a phobl ifanc Cymru.

Fel llynedd rydym yn rhagweld cynnydd mewn gwariant yn ystod 2008/9, ac rydym yn hyderus y byddwn yn gallu ymateb yn bositif i'r galw am fwy o adnoddau ariannol.





## Chair's Report
## Carol Davies

2007 – 2008: memorable events…

— First cookery competition held at the Eisteddfod
— Innumerable sports competitions
— Popularity of Urdd residential centres
— Successful Eisteddfod in the county of Conwy
— **Cip** celebrating 21 years
— Exciting developments with the Goodwill Message
— Urdd Gwyrdd emphasising recycling and supporting fair trade

Those are a few of this year's highlights which have provided our members with new skills and experiences. The provision is evolving – because we take time to listen to what is important to our members. This is achieved through youth forums and surveys – and some of our young people's responses demonstrate an amazing sense of vision and imagination in terms of the development of the organisation.

If I had to choose one event from hundreds, I must say that joining in the Urdd's Goodwill Message campaign this year was pure pleasure as scores of schools and hundreds of children and young people joined together to sing the special song "Gwres dy Galon", live on BBC Radio Cymru.

Everyone who gives of their time to support and promote the activities of Urdd Gobaith Cymru is an inspiration to our members. I am grateful to the volunteers, the supporters and the staff of the organisation, including its officers and of course the members – the enthusiastic and faithful supporters of Mistar Urdd.



## Chief Executive's Report
## Efa Gruffudd Jones

It is my pleasure to present this review to you. It is a record of another busy, happy year in the Urdd's history.

During the coming year, we will begin to achieve the objectives set out in our Corporate Plan for the years 2008-2011.

In that document, we have clearly stated our aspirations as an organisation.

**To ensure the future of the Welsh language as a thriving language.** We believe that this can only be achieved by investing in the creation of opportunities for the use of the Welsh language amongst children and young people.

**To increase Welsh medium sporting activity.** In so doing, we are assisting the young people of Wales to become healthier, maximising the link between sports and the natural environment, and creating more active communities in Wales.

**To develop the Urdd's residential centres.** 38,000 visitors currently attend our residential centres and the experiences offered at these centres in terms of Welsh language and culture are unique.


**To increase the Urdd's economic contribution to Welsh life, especially in rural Wales.** Our aim is to contribute to a prosperous economy which ensures quality, long term sustainable employment.

**To co-operate to ensure that our work in communities, in education and in the arts contributes to local, regional and national strategies.** We specialise in providing a Welsh medium youth service and we will work in partnership to ensure that this provision is increased throughout Wales and contributes to achieving the Youth Service Strategy's objectives for Wales.

**To ensure that young people in Wales have more opportunities to experience the arts and to participate in them.** We will ensure that the range of artistic experiences offered, from competing to performance opportunities are both innovative and exciting.

In facilitating and organising activities and events, we will improve the Welsh language skills of children and young people, and in so doing, increase their confidence and ensure that they use Welsh as a vibrant, natural language.

It is my particular privilege to thank those in all parts of Wales, volunteers, supporters and members of staff, who have ensured that the Urdd has been able to achieve so much over the last year. We can look forward to next year with great confidence.



## Treasurer's Report
## Rheon Tomos

For the third consecutive year, the organisation's accounts demonstrate a healthy balance, and in 2007/08, the situation was slightly better than expected. Although our expenditure increased by over £0.5m (to £6.9m), a substantial increase in income was achieved, crossing the £7m mark. This reflects substantial efforts to attract new funding, careful revision of costs and regular monitoring of budgets. I wish to congratulate our officers on this and on maintaining strict control of the financial situation.

The centres at Llangrannog, Glan-llyn and Cardiff have been extremely successful once again this year, with their efforts to attract more visitors paying dividends. It proved a difficult year for Glan-llyn due to difficulties arising from bad weather, but even so, they managed to cross the £1m milestone in terms of income from centre fees for the first time. These centres are self-supporting, receiving no financial assistance, and as the accounts demonstrate, they make a substantial contribution towards the organisation's running costs.

Substantial investment was made (in excess £1.8m) to stage the Eisteddfod in Carmarthen. Due to the Urdd staff's tireless work, and substantial efforts locally, the staging of the festival resulted in a surplus of slightly in excess of £17,000. The financial contribution made by Carmarthenshire County Council was appreciated in reaching this satisfactory outcome.

As in the previous year, we have once again invested in renewing equipment and making improvements to our assets, and the Business Board has supported further expenditure this year. In conjunction with this, we have been reviewing the demand for investment in the future whilst keeping in mind the levels of our reserves. This is a slight cause for concern, in that the downturn of financial markets has meant that the value of our investments has fallen this year. This is in contrast to the period of regular growth experienced in recent years. We will monitor the situation regularly and take advice as required.

We are extremely grateful that our partners and friends have once again this year demonstrated their generosity in terms of donations and grants. This contribution is key to our ability to provide such a variety of services of the children and young people of Wales.

As was true of last year, we foresee an increase in expenditure during 2008/9, and are confident that we will be able to respond positively to the demand for additional financial resources.







## Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

Bu'n flwyddyn gyffrous eto eleni gyda 51,091 o aelodau yn cael cyfle i ymuno mewn rhaglen o weithgareddau a chystadlaethau amrywiol.

Mae gwaith maes yr Urdd bellach yn ymestyn i Batagonia. Mae aelod o staff yr Urdd, a chyn aelod o staff yr Urdd yno ers mis Mawrth yn gweithio ar ddatblygu'r Gymraeg ymysg ieuenctid y Wladfa.

Mae prosiect gwaith ieuenctid arbennig iawn wedi digwydd ym Merthyr a Chasnewydd eleni gyda phobl ifanc 14 – 19 oed yn elwa o waith i ddatblygu cyfleoedd a gweithgareddau yn y ddwy ardal.

Mae tair theatr ieuenctid newydd wedi eu sefydlu yn nhalaith y gogledd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae degau o blant a phobl ifanc bellach yn manteisio ar y cyfle i fynychu sesiynau wythnosol yn Harlech, Corwen a Wrecsam.

Bocswn yw prosiect newydd Sir Ddinbych – prosiect newydd arloesol sy'n cynnig cyfres o weithdai roc i bobl ifanc y sir ac yna yn rhoi cyfle iddynt recordio eu gwaith mewn stiwdio broffesiynol. Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng yr Urdd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Coleg Llandrillo a YMAS.

Lluniwyd a chyflwynwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd eleni gan Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun. Dathlwyd y neges drwy gyfrwng cân arbennig gan Caryl Parry Jones. Cafwyd darllediad arbennig iawn o'r gân, ynghyd â'r neges, yn fyw o Ysgol Brynhyfryd ar BBC Radio Cymru gyda channoedd o blant a phobl ifanc ledled Cymru yn ymuno i gydganu "Gwres dy Galon".

Mae cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm wedi profi'n hynod o boblogaidd gyda dros 300 o bobl ifanc 14-19 oed wedi cofrestru yn barod. Mae'r cynllun yn gyfle gwych i achredu'r gwaith arbennig mae pobl ifanc yn ei gyflawni yn wirfoddol.

Bu cynllun Cogurdd yn llwyddiant heb ei ail eleni gydag adrannau ym mhobman yn gofyn am fwy! Y nod yw parhau gyda'r cynllun eto dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r teithiau tramor mor boblogaidd ag erioed gyda 1,680 wedi ymuno ar deithiau i Ffrainc, Awstria, Catalonia a'r Iwerddon.

Elfen bwysig o waith y Maes yw gweithio mewn partneriaeth, ac eleni bu cydweithio brwd gyda nifer o gyrff eraill megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Mentrau Iaith, yr Eisteddfod Genedlaethol, BBC Cymru, S4C a Chynghorau Sir ledled Cymru.



# Chwaraeon

Cynhaliwyd Cystadlaethau Rhanbarthol a Gwyliau Chwaraeon Cenedlaethol yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Llanelli.

Daeth 145 o dimau i gystadlu yn yr Ŵyl Rygbi Genedlaethol yn Llanelli, a 1,800 o bobl ifanc a 135 o dimau i gystadlu yn y Gystadleuaeth Bêl-rwyd Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Denodd y Gystadleuaeth Bêl-droed Genedlaethol 26 o dimau.

Trefnwyd cystadleuaeth griced newydd 50/50.

Llwyddodd tîm yr Urdd i ennill Cystadleuaeth Rygbi Rhyngwladol Ieuenctid Nelson Mandela yn Ne'r Affrig.

Derbyniodd dros 1,000 o staff a gwirfoddolwyr hyfforddiant chwaraeon yn ystod y flwyddyn gydag amryw o gyfleoedd yn amrywio o gyrsiau preswyl i gyrsiau wedi eu lleoli mewn ysgolion.

Am yr ail flwyddyn fe gystadlodd dros 500 o athletwyr yn yr Aquathlon Genedlaethol yn Aberystwyth.

Derbyniwyd £6,000 gan gynllun Sports Match ar gyfer cynnal prosiectau hoci a phêl-rwyd yn Eryri, Môn a Cheredigion. Derbyniwyd hefyd £3,000 o grant Sports Match ar gyfer cynlluniau hyfforddiant dawns yng Nghaerdydd a'r gogledd.

O ganlyniad i bartneriaeth rhwng yr Adran Chwaraeon a Chymdeithas Hoci a Phêl-rwyd Cymru trefnwyd cyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Derbyniwyd grant gan Ffederasiwn EU ar gyfer mynd â chriw o bobol ifanc i Sweden i dderbyn Gwobr Uwch Arweinyddion Chwaraeon.

Cysylltwch â

**Dyfrig Morgan**
Cyfarwyddwr Talaith y De
02920 635682
Dyfrig@urdd.org

**Dafydd Carrington**
Cyfarwyddwr Talaith y Canolbarth
01686 614036
Dafydd@urdd.org

**Mari Lloyd Pritchard**
Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd
01248 672106
Mari@urdd.org

**urdd.org**





# Leisure, Educational and Arts Activities

It proved another exciting year with 51,091 members having an opportunity to participate in a programme of varied activities and competitions.

The Urdd's work now extends to Patagonia. A member of the Urdd's staff, and a former member of the Urdd's staff have been working there since March, developing the Welsh language amongst young people in the Welsh settlement.

A special youth work project has been undertaken at Merthyr and Newport this year with 14-19 year olds benefiting from work to develop opportunities and activities in both areas.

Three new youth theatres have been established in north Wales during the last year. Scores of children and young people are now taking advantage of the opportunity to attend weekly sessions at Harlech, Corwen and Wrexham.

A new project in Denbighshire, entitled Bocswn, is an innovative new project which provides a series of rock workshops for the county's young people and subsequently gives them an opportunity to record their work in a professional studio. This project is a partnership between the Urdd, The Arts Council of Wales, Llandrillo College and YMAS.

The Urdd's Peace and Goodwill Message was written and presented this year by Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun. The message was celebrated in a special song composed by Caryl Parry Jones. Both the song and the message were broadcast live from Ysgol Brynhyfryd on BBC Radio Cymru and this was a successful event with hundreds of children and young people throughout Wales joining in song.

The Millennium Volunteers scheme has proved extremely popular with more than 300 14-19 year olds already having registered. The scheme is an excellent opportunity to provide accreditation for the excellent voluntary work carried out by young people.

The Cogurdd scheme proved an unparalleled success this year with 'adrannau' everywhere asking for more! The aim is to continue with this scheme again in the coming year.

Visits abroad prove as popular as ever with 1,680 having traveled to France, Austria, Catalonia and Ireland.

Partnership is an important element of our youth work and this year we worked closely with a number of other organisations such as the Welsh Language Board, the Mentrau Iaith, the National Eisteddfod, BBC Cymru, S4C and Unitary Authorities throughout Wales.

# Sports

County Sporting Competitions and the National Sports Festivals were held at Cardiff, Aberystwyth, Bangor, Swansea and Llanelli.

145 teams came to compete in the National Rugby Festival in Llanelli, and 1,800 young people and 135 teams competed in the National Netball Competition in Cardiff.

The National Football Competition attracted 26 teams.

A new 50/50 cricket competition was organised.

The Urdd team won the Nelson Mandela International Youth Rugby Competition in South Africa.

More than 1,000 members of staff and volunteers received sports training during the year with numerous opportunities varying from residential courses to school-based courses.

For the second year, more than 500 athletes competed in the National Aquathlon in Aberystwyth.

£6,000 was received from the Sports Match scheme to run hockey and netball projects in Eryri, Môn and Ceredigion. £3,000 was also received as a grant from Sports Match for dance traning schemes in Cardiff and in north Wales.

As a consequence of the partnership between the Sports Department and the Hockey and Netball Association of Wales, training courses were held through the medium of Welsh for the first time.

A grant was received from the EU Federation to take a group of young people to Sweden to receive their Senior Sports Leaders Award.

## Contact

**Dyfrig Morgan**
Director of South Wales Region
02920 635682
Dyfrig@urdd.org

**Dafydd Carrington**
Director of Mid Wales Region
01686 614036
Dafydd@urdd.org

**Mari Lloyd Pritchard**
Director of North Wales Region
01248 672106
Mari@urdd.org

**urdd.org**





# Ffynonellau Incwm Allanol

Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Cynigwyd y grantiau canlynol:** | |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | £670,705 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (grant ieuenctid) | £83,000 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | £26,000 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | £26,221 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin (Eisteddfod 2007) | £200,000 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Eisteddfod 2007) | £25,000 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | £4,000 |
| WEFO Interreg IIIA | £44,170 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | £11,250 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri (Llangrannog) | £160,851 |
| Amcan 1 EAGGF (Llangrannog) | £41,125 |
| **Awdurdodau Lleol** | |
| Powys | £7,896 |
| Ceredigion | £8,500 |
| Caerfyrddin | £15,000 |
| Sir Benfro | £7,750 |
| Rhondda Cynon Taf | £5,000 |
| Caerffili | £10,000 |
| Merthyr Tudful | £11,300 |
| Casnewydd | £25,000 |
| Môn | £17,870 |
| Gwynedd | £31,130 |
| Conwy | £17,050 |
| Dinbych | £5,000 |
| Wrecsam | £4,470 |
| Cyngor Sir Conwy – Eisteddfod 2008 | £300,000 |
| Amrywiol – Eisteddfod 2008 | £10,654 |

# Noddwyr

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod yr Urdd a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd **£223,725** o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2008 gan y canlynol:

Cynulliad Cenedlaethol Cymu, Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, HSBC, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Castell Howell, Ynni Gwynt Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Jones & Whitehead, Principality, Co-Operative, Technoleg Comcen Ltd, Post Brenhinol, Coleg Llandrillo Cymru, Tesco, UCAC, Castle Cement, BT, Nant Gwrtheyrn, Energy Solutions, Capita Symonds, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Ifor ac Aeres Evans, Daily Mail, RBS, Ymddiriedolaeth Jane Hodge, Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, Cronfa Degwm Cymru, Peugeot, Cynyrchiadau In The Dark, Gravells, Slaters Abergele, Daily Post, Heddlu Gogledd Cymru.

Noddodd y Post Brenhinol gystadleuaeth Ysgrifennu Llythyr yn y cylchgrawn **Cip** eleni. Cefnogodd WRW, Stenaline, Prifysgol Aberystwyth, Hybu Cig Cymru a'r Shop Rugby weithgareddau chwaraeon yr Urdd.

| **Prif Gymynroddion** | |
|---|---|
| Eifion Samuel George, Llanelli | £2,355 |
| Dilys Alice Owen, Llandudno | £25,000 |
| Gwen Dorothy Robson, Corwen | £19,500 |
| Mary Sioned Jones, Clydach | £26,035 |
| Gwladys Medwen Jones, Llanrug | £1,000 |
| John Williams, Rhoose Vale (rhan) | £11,400 |

| **Cefnogaeth at Brosiectau Penodol** | |
|---|---|
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – dros 2 flynedd (Cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm) | £55,440 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Prosiect Celf Gogledd Cymru) | £24,650 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – dros 3 mlynedd (Theatr Ieuenctid yr Urdd) | £75,000 |
| Ymddiriedolaeth William Park Jones – dros 2 flynedd (Theatr Ieuenctid yr Urdd) | £15,000 |
| YMAS (Youth Music) | £9,000 |

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Datganiadau

**Datganiad yr Archwilwyr i Ymddiriedolwyr Urdd Gobaith Cymru**
Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**
Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 10 Hydref 2008.

**Sail ein barn**
Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**
Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008.

Patterson Jones & Evans.

Patterson, Jones & Evans
Archwilwyr Cofrestredig,
Llanbedr Pont Steffan

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**
Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 10 Hydref 2008 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran
Bwrdd y Cyfarwyddwyr

## Cwmni Urdd Gobaith Cymru Cyf — Urdd Gobaith Cymru Company Limited
## Mantolen 31 Mawrth 2008 — Balance Sheet 31 March 2008

| | | 2008 / £ | 2007 / £ |
|---|---|---|---|
| **Asedion Sefydlog** | **Fixed Assets** | | |
| Eiddo sylweddol | Tangible assets | 7,592,714 | 7,615,709 |
| Buddsoddion | Investments | 1,454,037 | 1,650,743 |
| | | **9,046,751** | **9,266,452** |
| **Asedion Cyfredol** | **Current Assets** | | |
| Stoc | Stock | 23,119 | 33,836 |
| Dyledwyr | Debtors | 737,262 | 912,937 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | Cash at bank and in hand | 1,296,141 | 1,007,219 |
| | | **2,056,522** | **1,953,992** |
| **Credydwyr** | **Creditors** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Amounts falling due within a year | (1,719,107) | (1,857,574) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | Net current liabilities | 337,415 | 96,418 |
| Asedion llai rhwyme – digaethau cyfredol | Total assets less current liabilities | 9,384,166 | 9,362,870 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | Amounts falling due after a year | (1,246,838) | (1,388,065) |
| | | **8,137,328** | **7,974,805** |
| **Cronfeydd** | **Reserves** | | |
| Cronfeydd cyfyng | Restricted funds | 2,164,823 | 2,198,728 |
| Cyfrif incwm a thraul | Income and expenditure | 5,144,871 | 4,721,631 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | Investment revaluation reserve | 644,254 | 852,476 |
| Cronfeydd gwaddol | Endowment funds | 183,380 | 201,970 |
| **Cronfeydd** | **Cronfeydd** | **8,137,328** | **7,974,805** |

## Canlyniad y flwyddyn Urdd Gobaith Cymru — Outcome for the year Urdd Gobaith Cymru

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £6,830,983 o gronfeydd rhydd, £424,586 o gronfeydd clwm a £20,570 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £193,950 yn cynnwys gweddill o £393,170 a'r gronfeydd rhydd, lleihad net o £33,905 o gronfeydd cyfyng a chynnydd net o £12,797 ar gronfeydd gwaddol.

The total income includes £6,830,983 of unrestricted funds, £424,586 of restricted funds and £20,570 of endowment funds. The net increase for the year after transfers between reserves is £193,950 including a net increase of £393,170 on unrestricted funds, net deficit of £33,905 on restricted funds and a net deficit of £12,797 on endowment funds.

| | | 2008 / £ | 2007 / £ |
|---|---|---|---|
